# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Croeso | t.1 |
| Ein cyrsiau | t.2 |
| Graddau ymchwil | t.16 |
| Ein hymchwil | t.18 |
| Cyflogadwyedd | t.20 |
| Cefnogi entrepreneuriaeth | t.21 |


THE TIMES THE SUNDAY TIMES
CANLLAW PRIFYSGOLION DA 2026
PRIFYSGOL Y FLWYDDYN AM GYNALIADWYEDD

**Gwybodaeth bwysig**
Roedd yr wybodaeth a gyhoeddir am y rhaglenni gradd yn y llyfryn hwn yn gywir pan anfonwyd y ddogfen i'w hargraffu (Chwefror 2026), ond fe allai newid. Cynghorir darpar fyfyrwyr i edrych ar ein gwefan i gael yr wybodaeth a'r manylion diweddaraf am y cwrs, gan gynnwys ein gofynion mynediad, cyn gwneud cais, er mwyn bod yn sicr fod y cynllun yn addas i'w gofynion.



# Croeso
## i Ysgol Fusnes Aberystwyth

Rydym ni wrth ein bodd eich bod yn ystyried Ysgol Fusnes Aberystwyth fel lle i astudio eich gradd uwchraddedig. Rydym ni'n ymfalchïo ein bod yn addysgu'r theori ac ymarfer busnes diweddaraf, gan nodi'r meysydd allweddol o bwysigrwydd i sicrhau ein bod yn cyflenwi'r profiad addysgu a dysgu gorau er mwyn eich helpu i gyflawni eich nodau.

Nod ein rhaglenni Meistr cyffredinol mewn cyllid, busnes rhyngwladol, marchnata a rheoli yw datblygu'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr ac entrepreneuriaid ac rydym ni'n sicrhau eich bod yn cyfranogi mewn amgylchedd lle gallwch ddysgu, ymgysylltu a chyd-greu datrysiadau i fodloni gofynion amgylchedd busnes sy'n gynyddol gymhleth ac sy'n newid yn gyflym.

Os ydych chi'n dechrau ar yrfa ym maes rheoli, bydd yr MBA a'r MBA proffesiynol yn diwallu eich anghenion. Os ydych chi wedi datblygu ymhellach yn eich gyrfa ac yn dymuno diweddaru eich gwybodaeth busnes a rheoli a mireinio eich sgiliau arwain, efallai mai'r MBA Gweithredol (EMBA) yw'r rhaglen i chi.

Rydym ni hefyd yn cynnig cyfres o raglenni Meistr Gweithredol arbenigol wedi'u cynllunio ar gyfer arweinwyr busnes profiadol. Bydd y rhain yn sicrhau y cewch y sgiliau arwain a'r wybodaeth ddiweddaraf i gyflwyno newid sylweddol sy'n para yn eich sefydliadau.

Mae'r rhain wedi'u cynllunio ar gyfer denu carfan fyd-eang, a byddwch yn dysgu sut i arwain newid mewn gwahanol amgylcheddau a diwylliannau gweithredu. Nod y rhaglenni arwain newid ag effaith uchel i arweinwyr busnes yw cyflwyno newid sy'n para drwy ddysgu gweithredol â ffocws a rhoi strategaethau arwain newid ar waith mewn amser real yn eich sefydliadau perthnasol.

Fel Ysgol flaenllaw sy'n cyflwyno dysgu busnes a rheoli eithriadol, rydym ni'n falch o'n hacoladau ac yn parhau i weithio at sicrhau rhagoriaeth addysgu, ymchwil uchel ei effaith a chanlyniadau'n seiliedig ar gyflogadwyedd. Gyda staff ymroddgar, hynod brofiadol a chymwysedig, mae Ysgol Fusnes Aberystwyth yn parhau i gyflwyno a datblygu graddedigion talentog, hyderus a hynod wybodus.

Un o'n cryfderau penodol yw ein cysylltiadau eang a dwfn gyda busnes sy'n creu cyfleoedd i ymgymryd ag ymchwil cymwysedig a throsglwyddo gwybodaeth er mwyn sbarduno newid real sy'n para yn y gymdeithas. Mae ein gwaith hefyd yn cwmpasu cynghori cyrff llywodraethol ac ymgymryd ag ymchwil sy'n cael effaith ar y lefel uchaf.

Diolch am ystyried Ysgol Fusnes Aberystwyth ar gyfer eich penderfyniad gyrfa pwysig. Os oes angen rhagor o gymorth arnoch, cysylltwch â ni unrhyw bryd.



**Yr Athro Homagni Choudhury**

**Pennaeth Ysgol Fusnes Aberystwyth**

# Rheoli Peirianneg

## MSc

Mae’r MSc Rheoli Peirianneg wedi’i gynllunio i apelio at unrhyw un sy’n dymuno datblygu ei sgiliau a’i hyder wrth reoli systemau peirianneg a thechnoleg. Drwy gydol y rhaglen, byddwch yn datblygu sgiliau ym meysydd arloesi, dadansoddi, strategaeth busnes a rheoli. Ar ôl cwblhau'r cwrs, bydd gennych y sgiliau angenrheidiol i fod yn arweinydd a rheolwr technegol effeithiol, a dilyn gyrfa mewn ystod o rolau ym maes peirianneg, technoleg a rheoli menter.

Mae gan beirianneg rôl hanfodol i'w chwarae yn y chwyldro technolegol sydd ohoni sy'n newid yn gyflym, ac mae galw mawr am reolwyr sy’n gallu arloesi wrth ymateb i heriau byd-eang. Mae’r MSc Rheoli Peirianneg yn canolbwyntio ar feithrin y sgiliau hanfodol a'r cymwyseddau sydd eu hangen ar uwch reolwyr i lwyddo yn y sector hwn, gan gynnwys sgiliau arloesi peirianneg ddiwydiannol yn ogystal â thechnegau rheoli a busnes strategol.

Byddwch yn astudio modiwlau ar reoli a pheirianneg ansawdd, strategaethau a gweithrediadau rhyngwladol, economeg busnes, arweinyddiaeth, rheoli prosiectau ac arloesi cynnyrch. Byddwch hefyd yn cwblhau adroddiad rheoli peirianneg sylweddol sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwelliannau gwerth ychwanegol o fewn cwmnïau.

Mae'r rhaglen hon wedi'i chynllunio i fod yn hygyrch i fyfyrwyr sydd wedi graddio o bron unrhyw ddisgyblaeth. Nid oes angen gwybodaeth dechnegol fanwl i ymgymryd â'r rhaglen.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Financial Analysis and Decision Making
- International Strategy and Operations
- Leading People and Organisations
- Project Management Tools and Techniques
- Quality Engineering and Management.

**Quality Engineering and Management**
Mae'n dadansoddi'n feirniadol ystod o systemau a modelau Sicrhau Ansawdd a Pheirianneg Ansawdd yn ogystal ag offer a thechnegau cynllunio ansawdd a thechnegau gwella ansawdd cyfoes ac yn cymhwyso'r technegau hyn i feysydd dylunio, cynllunio, a rheoli systemau cynhyrchu penodol.

**Leading People and Organisations**
Mae’n ymdrin a’r damcaniaethau, modelau a chysyniadau allweddol sy'n sail i’r astudiaeth o ymddygiad dynol a’r gweithredu o fewn sefydliadau; mae’n ymdrin a deinameg grym a gwleidyddiaeth mewn sefydliadau; a'r rol y mae arweinyddiaeth yn ei chwarae wrth gydlynu grymoedd sefydliadol, sydd yn aml yn cystadlu a'i gilydd.

I gael rhagor o fanylion a’r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i’n gwefan.

## Ffeithiau Allweddol

**Math o radd:** MSc.

**Cod y cwrs:** N23F.

**Hyd:** 1 flwyddyn.





Fferm Solar Prifysgol Aberystwyth
(Llun: James Harries)

# Cyflogadwyedd

Yn Ysgol Fusnes Aberystwyth, mae cyflogadwyedd wedi'i wreiddio ym mhob un o'n cyrsiau er mwyn eich gosod yn gadarn ar eich llwybr gyrfa yn y dyfodol. Rydym ni'n cynnig rhaglen flynyddol o seminarau ymchwil adrannol, gyda siaradwyr gwadd uchel eu proffil a diwydianwyr proffesiynol i ehangu eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o faterion busnes a chynnig cyfleoedd rhwydweithio pwysig i chi.

Pa bynnag raglen y byddwch chi'n ei dewis ar gyfer eich gradd uwchraddedig gallwch fod yn siŵr o ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy allweddol fydd yn amhrisiadwy mewn unrhyw weithle, gan gynnwys:

- Deall ymddygiad a strwythur sefydliadol
- Gwell sgiliau rhifedd a'r gallu i ymchwilio, dehongli a defnyddio data busnes ac ariannol
- Dealltwriaeth fanwl o achosion ac effeithiau newidiadau economaidd a newidiadau allanol eraill
- Y gallu i gyfathrebu'n glir ar bapur ac ar lafar
- Datrys problemau'n effeithiol
- Sgiliau dadansoddi a meddwl yn greadigol
- Gwneud penderfyniadau
- Y gallu i weithio'n annibynnol ac fel aelod o dîm
- Sgiliau rheoli amser a threfnu
- Hunangymhelliant a hunanddibyniaeth.

### Gallai'r llwybrau gyrfa posibl fydd ar gael i chi wrth raddio gynnwys:

- Strategaeth ariannol
- Rheoli
- Proffesiwn Actwari
- Bancio corfforaethol
- Trethi
- Dadansoddi buddsoddiadau
- Masnachu ariannol
- Bancio adwerthu
- Y Gwasanaeth Sifil
- Y Gwasanaeth Diplomyddol
- Llywodraeth Leol
- Cyfrifyddu
- Bancio
- Yswiriant
- Tanysgrifennu
- Rheoli Risg
- Manwerthu
- Dosbarthu a Logisteg
- Marchnata
- Ymchwil i'r Farchnad
- Hysbysebu.

### Cyfleoedd Profiad Gwaith

Bydd myfyrwyr ar ein rhaglenni MBA yn cael cyfle i sicrhau profiad gwaith gwerthfawr drwy ymgymryd â nifer o interniaethau â thâl a heb dâl, a phrosiectau grŵp. Bydd interniaethau â thâl yn gyfyngedig ac yn ddibynnol ar berfformiad academaidd.

### Datblygiad Proffesiynol

Bydd y sgiliau adfyfyrio ac ymatblyg a ddysgir ar eich cwrs yn gadael i chi werthuso eich anghenion a'ch dyheadau personol a phroffesiynol yn well, ac rydym ni'n canfod bod ein myfyrwyr yn fwy abl i gynllunio eu gyrfaoedd. Rydym ni'n cynnig arweiniad gyrfa proffesiynol un i un, ac mae coetsio ychwanegol gan hyfforddwr datblygu arweinyddiaeth 360-gradd achrededig hefyd ar gael ar gais.



# Cefnogi entrepreneuriaeth

### Cefnogi entrepreneuriaeth

Os ydych chi'n meddwl dechrau busnes neu fenter gymdeithasol neu efallai'n ystyried gweithio'n llawrydd, gall Gwasanaeth Gyrfaoedd y Brifysgol gynnig cymorth a chyngor i chi ar bob agwedd ar droi eich syniad da yn fenter wych. Mae gwasanaeth AberPreneurs yn cynnig:

- Gweithdai a chyflwyniadau dechrau busnes am ddim
- Mentora dechrau busnes un i un am ddim gan ymgynghorydd busnes proffesiynol
- InvEnterPrize – cystadleuaeth flynyddol £10,000 i syniadau busnes myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth
- Wythnos Dechrau Busnes – wythnos gyfan ym mis Mehefin o weithdai a chyflwyniadau i ddarpar entrepreneuriaid.

### InvEnterPrize

Os oes gennych chi syniad am gynnyrch neu wasanaeth newydd y gallech ei droi'n fenter busnes lwyddiannus, yna mae InvEnterPrize – ein cystadleuaeth entrepreneuriaeth i fyfyrwyr ar ddull 'Dragon's Den' – yn gyfle gwych i roi cychwyn i'ch menter newydd.

Gall unigolion neu dimau sydd â dyfeisiau, syniadau dechrau busnes neu gynlluniau uchelgeisiol eraill ennill pecyn gwobr gwerthfawr sy'n cynnwys cymorth a buddsoddiad werth hyd at uchafswm o £20,000 i ddechrau'r busnes. Yn ogystal, bydd pawb sy'n cyrraedd y rhestr fer yn cael cyngor arbenigol gan banel o gyn-fyfyrwyr sy'n entrepreneuriaid llwyddiannus.

Mae enillwyr y gorffennol yn cynnwys Cargo, cerbyd dosbarthu di-yrrwr; Amigrow, sy'n defnyddio technoleg lloeren a dysgu peiriant i gynorthwyo ffermwyr gyda phenderfyniadau ac sydd wedi'i gynllunio i helpu ffermwyr yn Colombia i wella cynhyrchedd eu cnydau; a Papora.com, gwefan dysgu iaith.



